

# FFYRDD GWYRDD

## SENEDD IEUENCTID CYMRU, PWYLLGOR HINSAWDD A'R AMGYLCHEDD

Hydref 2023

WELSH YOUTH PARLIAMENT
SENEDD IEUENCTID CYMRU

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# FFYRDD GWYRDD

## SENEDD IEUENCTID CYMRU, PWYLLGOR HINSAWDD A'R AMGYLCHEDD

Hydref 2023

WELSH YOUTH PARLIAMENT
SENEDD IEUENCTID CYMRU

# AELODAU'R PWYLLGOR

FFION FAIRCLOUGH
JAKE DORGAN
HARRISON WILLIAMS
DYLAN CHETCUTI
HERMIONE VAIKUNTHANATHAN-JONES
ELENA RUDDY
OWAIN WILLIAMS
STELLA ORRIN
KASIA TOMSA
FINLEY MILLS
SONIA MARWAHA



# CYNNWYS

Ffyrdd Gwyrdd........ 5
Cynnwys........ 9
Cyflwyniad........ 10
Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth........ 14
Fforddiadwyedd........ 20
Seilwaith, dibynadwyedd ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus........ 26
Llwybrau teithio llesol........ 36
Arwyddion, tocynnau, a gwybodaeth amserlennu........ 42
Gwahaniaethu a cham-drin........ 48
Crynodeb ac argymhellion........ 52

# CYFLWYNIAD

*Grŵp ydyn ni o 11 o Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru sy'n cynrychioli Pwyllgor yr Hinsawdd a'r Amgylchedd Senedd Ieuenctid Cymru. Crëwyd y Pwyllgor ar ôl cyfarfod cyntaf Senedd Ieuenctid Cymru ym mis Chwefror 2022, lle y dewiswyd tri mater fel blaenoriaethau gennym ni a chan weddill y 60 Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru.*

Rydym i gyd yn hynod frwd am ddiogelu'r amgylchedd. Ein dyfodol ni ydyw, ac mae gennym ddyletswydd i ofalu am ein planed. Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd, a phennodd darged i gyflawni sero net erbyn 2050. Ym mis Gorffennaf, gwnaeth Antṓnio Guterres, Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, ein hatgoffa o'r angen i weithredu ar frys i ddiogelu ein hamgylchedd. Dywedodd: "Mae'r newid yn yr hinsawdd wedi cyrraedd. Mae'n ddychrynllyd. A dim ond y dechrau ydyw… mae'n dal yn bosibl cyfyngu ar y cynnydd yn nhymheredd y byd i 1.5C [uwchlaw lefelau cynddiwydiannol], ac osgoi'r gwaethaf o'r newid yn yr hinsawdd. Ond dim ond os ydyn ni'n cymryd camau gweithredu dramatig ar frys."

> *'Y mater pwysicaf i mi yw sefydlogrwydd ein hinsawdd. Ni ellir ei gweld, nid oes aroglau iddi, ni ellir cyffwrdd â hi ac ni ellir ei chlywed ond mae'n effeithio ar bob agwedd bron ar ein bywydau bob dydd. Mae dynoliaeth yn llythrennol yn sglefrio ar iâ tenau.' (Poppy Jones, Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, Arfon)*

Yng Nghymru, trafnidiaeth sy'n cynhyrchu 17% o'r holl allyriadau carbon. Dyna pam y gwnaethom benderfynu canolbwyntio ar ystyried yr hyn y gellid ei wneud i annog mwy o bobl i deithio mewn ffordd fwy cynaliadwy drwy deithio llesol (cerdded, olwyno a beicio) neu drafnidiaeth gyhoeddus (fel bysiau a threnau) i helpu i leihau allyriadau.





Dros y misoedd diwethaf, rydym wedi clywed gan bobl ifanc o bob rhan o Gymru i'n helpu i ddeall eu profiadau, eu barn a'u syniadau. Cwblhaodd 1,300 o bobl ifanc ein harolwg, a thros gyfnod o bum mis, cynhaliwyd digwyddiadau, sesiynau gydag ysgolion, grwpiau ieuenctid a fforymau ledled Cymru. Fel Pwyllgor, roeddem yn awyddus iawn i sicrhau ein bod yn clywed gan grwpiau amrywiol o bobl ifanc, ac roeddem yn hapus y bu modd inni ymgysylltu â phobl ifanc o ardaloedd gwledig, pobl ifanc o ardaloedd tlotach, pobl ifanc ag anabledd, o leiafrifoedd ethnig, ac aelodau o'r gymuned LHDTC+. Roedd mwyafrif llethol y rhai y clywsom ganddynt (81%) rhwng 11 a 17 oed. Clywsom hefyd gan rai rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr yn ystod y broses.

Mae'r canfyddiadau yn ein hadroddiad yn adlewyrchu barn pobl a ymatebodd o'u gwirfodd ac a ddewisodd gymryd rhan yn yr arolwg. Maent hefyd yn adlewyrchu barn pobl a wahoddwyd i gymryd rhan yn ein grwpiau ffocws a digwyddiadau, ac efallai nad ydynt yn cynrychioli poblogaeth Cymru yn uniongyrchol.

Roedd ein hymgynghoriad yn canolbwyntio ar ddeall agweddau pobl ifanc tuag at wahanol ddulliau teithio, a deall y rhwystrau sy'n eu hatal rhag teithio mewn ffordd fwy cynaliadwy nag y maent ar hyn o bryd. Gobeithiwn y bydd yr adroddiad hwn yn rhoi cipolwg defnyddiol ac y bydd yn dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir i gyflawni targedau er mwyn diogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'i amser i ddweud ei ddweud am y mater pwysig hwn, ac i'r amrywiaeth o grwpiau, sefydliadau, ysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid a helpodd i lywio ein gwaith a rhannu ein hymgynghoriad.

**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

# YMWYBYDDIAETH A DEALLTWRIAETH

▼ Ffion Fairclough, Aelod Senedd Ieuenctid Cymru dros Bontypridd, yn cael ei chyfweld ar gyfer Newyddion Ni (Newyddion i Blant a Phobl Ifanc S4C) yn nigwyddiad Ffyrdd Cynaliadwy Trafnidiaeth Cymru ym Mhontypridd.



# YMWYBYDDIAETH A DEALLTWRIAETH

*Gwelsom fod lefelau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth pobl ifanc yn gymysg; yn gadarnhaol mewn rhai meysydd, ac mae lle i wella mewn eraill yn sicr. Roedd tua dwy ran o dair yn ymwybodol o ffyrdd y gallent deithio mewn ffordd gynaliadwy (drwy deithio llesol neu drafnidiaeth gyhoeddus). Roeddent hefyd yn ymwybodol o'r effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd, ac o sut y gall teithio llesol helpu eu llesiant corfforol ac emosiynol.*

> *'Dw i'n gwybod fy mod i'n niweidio'r amgylchedd drwy ddefnyddio car a fy mod i'n achub yr amgylchedd drwy ddefnyddio fy nhraed.' (person ifanc 10 oed, Blaenau Gwent)*

Roedd 46% yn teimlo bod mannau dysgu (fel ysgolion a cholegau) yn dda neu'n dda iawn am wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o fanteision teithio cynaliadwy, ac roedd 40% yn teimlo bod mannau dysgu yn dda neu'n dda iawn am wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r ffordd y gallant ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu deithio llesol yn eu hardal. Er bod y mwyafrif yn teimlo bod mannau dysgu'n gwneud gwaith da ar y materion hynny, roedd nifer fawr yn ddifater, roedd 37% a 38% yn meddwl nad ydynt yn gwneud gwaith da na gwaith drwg yn y drefn honno.

Dim ond 28% o'r bobl ifanc y buom yn ymgysylltu â hwy oedd yn ymwybodol o gynlluniau sydd ar waith i'w gwneud yn fwy fforddiadwy i bobl ifanc ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, fel FyNgherdynTeithio. Er bod nifer yr oedolion y clywsom ganddynt yn ystod ein hymgynghoriad yn llawer llai na nifer y bobl ifanc, dim ond chwarter yr oedolion oedd yn ymwybodol o'r cynlluniau hyn.





> *'Rhagor o hysbysebu am y cynlluniau i bobl ifanc.'*
> *(person ifanc 15 oed, Ceredigion)*

> *'Y bysiau yn fy ardal i - mae gen i gerdyn sy'n rhoi traean oddi ar bris bysiau i bobl ifanc ond dwi ddim yn gwybod faint o bobl sy'n gwybod hynny.'*
> *(Ffion Fairclough, Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, Pontypridd)*

## Casgliadau

Mae'n gadarnhaol bod cymaint o bobl ifanc yn ymwybodol o fanteision amgylcheddol teithio cynaliadwy, a'r ffordd y gall teithio llesol helpu eu llesiant corfforol ac emosiynol.

Rydym o'r farn ei bod yn rhyfeddol nad oedd 72% o bobl ifanc (a nifer o gyd-Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru) yn gwybod bod cynlluniau yng Nghymru i'w gwneud yn fwy fforddiadwy i bobl ifanc ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fel FyNgherdynTeithio. Er bod cymaint o'r bobl ifanc hyn yn dweud mai cost yw un o'r prif rwystrau i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus (byddwn yn ymdrin â hynny eto yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn). Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried y ffigur hwn, a gweithio ar eu dull o farchnata'r cynlluniau hyn i sicrhau bod pobl yn gwybod amdanynt. Cawsom ein synnu o weld nad oedd oedolion yn gwybod llawer am y cynlluniau hyn chwaith. Mae hyn yn peri pryder o ystyried yr effaith y mae rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr yn ei chael ar ddewisiadau teithio pobl ifanc.

> *'I raddau helaeth, mae'r ffordd y mae'r rhieni yn magu eu plant a dealltwriaeth y rhieni o fanteision teithio cynaliadwy yn helpu i godi ymwybyddiaeth.'*
> *(person ifanc 17 oed, Rhondda Cynon Taf)*

Er bod llawer o bobl ifanc hefyd wedi dweud wrthym fod mannau dysgu yn dda am eu haddysgu am fanteision teithio cynaliadwy, rydym yn teimlo y gellir gwneud mwy yma gan fod nifer fawr o bobl ifanc wedi dweud nad oedd mannau dysgu'n dda nac yn wael am wneud hyn. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion ychydig yn fwy beirniadol o ran pa mor dda oedd mannau dysgu am gyfathrebu sut i deithio mewn ffordd gynaliadwy yn yr ardal leol. Teimlwn y dylid rhoi mwy o bwyslais ar hyn mewn mannau dysgu a bod angen i'r gwersi fod yn berthnasol i'r byd go iawn ac i'r ardal leol - pan fo pobl ifanc yn cael gwybod am lwybrau lleol, sut i ddefnyddio gwahanol ddulliau teithio, sut y maent yn cysylltu, a'r gwahanol gynlluniau sydd ar gael i'w cefnogi. Rydym hefyd yn teimlo bod angen gwneud

mwy o waith y tu allan i'r ysgol i hysbysebu a hyrwyddo manteision ac ymarferoldeb teithio cynaliadwy yn ein cymunedau lleol ledled Cymru.

> *'Dydw i ddim yn teimlo bod ffyrdd o arbed arian yn cael eu harddangos yn ddigon effeithiol. Mae angen i ni gael mwy o ffyrdd o arbed arian ond hefyd mae'n rhaid gwneud yn siŵr bod rhain yn cael eu hyrwyddo ymhellach.'*
> *(person ifanc 19 oed, Ynys Môn)*

**Rydym yn galw am y canlynol:**

- Mannau dysgu i roi mwy o bwyslais ar wella dealltwriaeth pobl ifanc o ymarferoldeb sut y gallant deithio'n gynaliadwy yn eu hardal leol.
- Mwy o ymdrechion i hyrwyddo teithio cynaliadwy, a chynlluniau fel FyNgherdynTeithio.



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

# FFORDDIADWYEDD



# FFORDDIADWYEDD

*Un o'r rhwystrau mwyaf i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus oedd y gost. Dim ond 22% o bobl ifanc ddywedodd fod pris tocynnau bws yn dda neu'n dda iawn, gyda'r ffigur ychydig yn llai (21%) ar gyfer trenau. Roedd rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr hefyd yn codi cost fel rhwystr sylweddol, sy'n effeithio ar sut maent yn teithio, ac o ganlyniad, ar sut mae llawer iawn o'r bobl ifanc y maent yn gofalu amdanynt yn teithio. Dywedodd rhai pobl ifanc hefyd fod y gost o brynu beic yn eu hatal rhag gallu ystyried beicio fel ffordd o deithio.*

> *'Dwi'n gweld y prisiau yn uchel iawn sydd yn aml yn fy atal rhag teithio ar y bws yn lle'r car - er fy mod i eisiau gwneud y peth iawn!' (Rhiant/gofalwr/gwarcheidwad)*
>
> *'Gwnewch fysiau yn llawer rhatach, yn enwedig i bobl ifanc. Ar hyn o bryd yn fy ardal i yn aml mae'n rhatach gyrru.' (person ifanc 17 oed, Abertawe)*

Dywedodd bron i hanner y bobl ifanc a ymatebodd i'n harolwg wrthym y byddent yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus lawer mwy pe bai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn galw am drafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl dan 25 oed. Dywedodd 27% arall y byddent yn ei defnyddio ychydig yn fwy.

> *'Lleihau cost trenau a bysiau ond trenau'n bennaf!!!!!!!! I bawb!!!!!! Maen nhw'n llawer rhy ddrud, mae'n costio £8 i deithio o Fangor i Gyffordd Llandudno, dim ond un stop i ffwrdd!!' (person ifanc 23 oed, Gwynedd)*



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

## Casgliadau

Mae'n amlwg mai pris tocynnau yw un o'r problemau mwyaf sy'n atal pobl ifanc rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy nag y maent nawr.

> *'Dwi'n cytuno y dylai'r drafnidiaeth fod yn rhad ac am ddim ac o ran y rheswm - dwi'n meddwl ei bod yn bwysig sefydlu arferion iach ar gyfer y dyfodol - os yw pobl ifanc yn dod i arfer â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus maen nhw'n fwy tebygol o barhau pan fyddan nhw'n hŷn. Ac yna mae bron yn talu amdano'i hun os oes mwy o bobl yn defnyddio'r gwasanaeth, felly rwy'n credu ei bod yn gwbl amlwg mewn gwirionedd.' (Elena Ruddy, Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, Partner a Etholwyd drwy'r Urdd)*

Mae'r cynllun FyNgherdynTeithio yn galluogi pobl ifanc rhwng 16 ac 21 oed i deithio am gost lai, ond mae angen mwy o gefnogaeth i annog teuluoedd i ddefnyddio'r bws er enghraifft, fel ei fod yn opsiwn mwy fforddiadwy i oedolion deithio gyda phlant a phobl ifanc o dan 16 oed.

Er ein bod yn cefnogi'r cynlluniau sydd eisoes ar waith i wneud teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn llai costus, credwn yn y pen draw y dylai trafnidiaeth gyhoeddus fod yn rhad ac am ddim i bobl ifanc o dan 25 oed. Rydym yn credu y byddai hyn yn annog mwy o bobl ifanc i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, a thros amser byddai pobl ifanc yn dweud wrth eu ffrindiau gan eu hannog i wneud yr un peth. Gallai hyn hefyd arwain at ffurfio ymddygiad a fydd yn gweld pobl ifanc yn parhau i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus pan fyddant yn oedolion.

### Rydym yn galw am y canlynol:

- Cyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl o dan 25 oed.
- Cyflwyno cynlluniau i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad at offer fel beiciau a hyrwyddo'r cynlluniau'n effeithiol.



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

# SEILWAITH, DIBYNADWYEDD AC ARGAELEDD TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS



# SEILWAITH, DIBYNADWYEDD AC ARGAELEDD TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS.

*Dywedodd llawer o'r bobl ifanc y gwnaethom ymgysylltu â hwy wrthym fod amlder ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus yn eu hardal yn eu rhwystro rhag defnyddio'r gwasanaethau hyn. Roedd 30% yn teimlo bod amlder gwasanaethau bysiau yn dda neu'n dda iawn, o'i gymharu â 32% ar gyfer gwasanaethau trenau. Clywsom yn gyson mewn digwyddiadau, sesiynau grŵp ffocws, ac mewn nifer o sylwadau yn ein harolwg, fod hyn yn broblem, gyda rhywfaint o gyfeirio at lai o wasanaethau yn eu cymuned. Roedd hon yn broblem benodol i'r rhai sy'n byw mewn ardaloedd mwy gwledig.*

*'Mae pethau i weld yn waeth yn fam'ma – dwi'n byw mewn ardal eithaf gwleidg a mae'r gwasanaethau bys wedi cael eu torri lawr eitha tipyn.'*
*(Owain Williams, Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, Aberconwy)*

*'Rydym yn byw mewn ardal wledig iawn ac nid oes gennym fawr ddim o drafnidiaeth gyhoeddus.'*
*(Rhiant/gofalwr/gwarcheidwad)*



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

Roedd 34% yn teimlo bod gwahanol ddulliau teithio yn cysylltu â'i gilydd yn dda neu'n dda iawn yn eu hardal. Gwnaeth nifer o bobl sylwadau ar eisiau gweld gwelliant o ran integreiddio'r gwahanol wasanaethau trafnidiaeth hyn, ac ehangu rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus i'w gwneud yn opsiwn mwy realistig i'w ddefnyddio i deithio.

*'Mae'r rhan fwyaf o safleoedd bysiau yn eithaf pell o ble rwy'n byw, felly rhaid i mi deithio er mwyn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.'*
*(person ifanc 16 oed, Blaenau Gwent)*

*'Mae llwybrau'r bysiau yn golygu ei bod yn cymryd amser i gyrraedd pen fy nhaith felly rwy'n dewis peidio â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus am y rheswm hwn.'*
*(person ifanc 17 oed, Blaenau Gwent)*

*'Mae'r bws am daith 20 munud yn cymryd ychydig llai na dwy awr. Am drueni, byddwn i wrth fy modd yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy. Er bod gorsafoedd trenau lleol lle dwi'n byw, a lle mae fy mhlentyn yn mynd i'r ysgol, does dim trenau yn rhedeg.'*
*(Rhiant/gofalwr/gwarcheidwad)*

*'Car yw'r mwyaf dibynadwy, yr hawsaf a'r rhataf. Nid oes unrhyw opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus ar yr amseroedd/yn y lleoliadau sydd eu hangen.'*
*(Rhiant/gofalwr/gwarcheidwad)*

*'Anaml y bydd amserlenni bysiau a threnau yn cysylltu, nid yw'r naill na'r llall yn ddigon dibynadwy i geisio symud rhwng y ddau, mae angen tocynnau gwahanol ar gyfer pob un.'*
*(person ifanc 22 oed, Caerffili)*

*'Nid oes pwynt canolog ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu â theithio llesol - nid yw llwybrau beicio yn cysylltu â chyfnewidfeydd trafnidiaeth.'*
*(person ifanc 16 oed, Sir Benfro)*

*'Bysiau mwy rheolaidd yn agos at fy nhŷ, mwy o gyswllt rhwng bysiau a threnau.'*
*(Rhiant/gwarcheidwad/gofalwr)*

O ran dibynadwyedd gwasanaethau bysiau, dywedodd 30% o bobl ifanc ei fod yn dda neu'n dda iawn, 30% nad yw'n dda nac yn wael, a 24% ei fod yn wael neu'n wael iawn. Ystyriwyd bod trenau ychydig yn fwy dibynadwy a dywedodd 31% eu bod yn dda neu'n dda iawn, 25% nad ydynt yn dda nac yn wael, a 19% eu bod yn wael neu'n wael iawn. Fodd bynnag, yn ein digwyddiadau a'n grwpiau ffocws, ac mewn nifer fawr o sylwadau yn ein harolwg, mynegodd pobl ifanc lawer iawn o rwystredigaeth gyda dibynadwyedd gwasanaethau yn eu hardal.

*'Fel rhywun sy'n gorfod dal y bws i'r coleg y rhan fwyaf o'r amser dwi'n gweld y bydd yn anodd iawn cyflawni hyn... dydy'r bysiau byth yn troi i fyny ar amser, yn fy mhrofiad i weithiau maen nhw'n troi i fyny hyd at 20 munud yn hwyr, ac weithiau dydyn nhw ddim yn troi i fyny o gwbl ac yna rhaid imi aros am y bws nesaf a chyrraedd fy ngwers hanner ffordd drwyddi neu rhaid imi weithio gartref.'*
*(merch 17 oed, Blaenau Gwent)*

*'Rwy'n credu y byddai pobl yn hapus i ddal y bws pe bai'n troi i fyny mewn pryd mae i fod ac nad ydych chi'n aros yno am hanner awr yn y glaw yn meddwl tybed a fydd eich bws yn troi i fyny o gwbl.'*
*(person ifanc 13 oed, Rhondda Cynon Taf)*



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

*'Ni allwch gynllunio eich diwrnod teithio o amgylch bws neu drên gan eu bod bob amser yn cael eu canslo neu nad ydyn nhw'n troi i fyny! Mae'r bysiau ym Merthyr Tudful yn gadael y gymuned gyfan i lawr. Rwy'n ddiolchgar am fy nghar a dwi wir yn teimlo dros y rhai sy'n dibynnu ar y drafnidiaeth gan eu bod yn dioddef yn sylweddol! Mae'n drueni.'*
*(Rhiant/gofalwr/gwarcheidwad)*

Roedd gwahaniaeth sylweddol yn y ffordd roedd pobl ifanc yn gweld diogelwch trafnidiaeth gyhoeddus o'i gymharu â theithio mewn car. Roedd 79% yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel yn teithio mewn car, o'i gymharu â theithio ar fws (43%), a theithio mewn trên (41%). Ystyriwyd bod gwasanaethau bysiau yn waith na gwasanaethau trenau ar draws nifer o gategorïau fel y dangosir yn y tabl isod:

| | **Gwasanaethau bysiau** | **Gwasanaethau trenau** |
|---|---|---|
| **Argaeledd seddi, a pha mor gyfforddus ydynt** | 31% yn dda neu'n dda iawn | 37% yn dda neu'n dda iawn |
| **Ansawdd a glendid** | 18% yn dda neu'n dda iawn | 31% yn dda neu'n dda iawn |
| **Nodweddion fel wi-fi a mannau gwefru ffonau** | 22% yn dda neu'n dda iawn | 37% yn dda neu'n dda iawn |

Teimlwyd mai diffyg buddsoddi mewn trafnidaeth gyhoeddus dros y blynyddoedd a achosodd lawer o'r ffactorau hyn.

Dywedodd pobl ifanc ag anabledd corfforol a niwroamrywiol wrthym eu bod yn wynebu amrywiaeth o heriau wrth geisio defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, yn amrywio o gael mynediad i fysiau wrth ddefnyddio cadair olwyn, cael eu dychryn gan deithwyr eraill sy'n gwneud synau uchel. Roedd rhai hefyd yn mynegi rhwystredigaeth am fod rhaid iddynt gysylltu â gwasanaethau teithio ymlaen llaw fel bod rampiau'n cael eu trefnu i'w galluogi i fynd ar drafnidiaeth gyhoeddus.

> *'Mae'r bysiau'n rhy uchel i fynd arnyn nhw, mae'r grisiau ar fysiau'n rhy uchel.' (person ifanc 14 oed, Bro Morgannwg)*
>
> *'Mae'n anodd delio â gorlwytho synhwyraidd ar fysiau.' (person ifanc 16 oed, Sir Ddinbych)*

Ymhlith y gwelliannau a awgrymwyd gan ymatebwyr i'r arolwg roedd hyfforddiant ar gyfer gyrwyr bysiau a threnau ac offer mynediad sydd ar gael yn ddiofyn. Gellid cyflwyno cerbydau tawel hefyd i annog mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

> *'Trenau sy'n cynnig mwy o breifatrwydd - fel cabanau'r gorffennol. Mae sŵn yn ffactor mawr pam rydyn ni fel teulu wedi dewis peidio teithio ar drenau oherwydd sŵn babis yn crio neu bartis swnllyd ac ati! Rwy'n credu y byddai hyn yn helpu pobl sy'n cael eu sbarduno gan sŵn hefyd e.e. pobl awtistig.'*
> *(person ifanc, Gwynedd)*

> *'Gofyniad i gysylltu â gweithredwyr trenau ymlaen llaw er mwyn cael defnyddio'r trên gyda chadair olwyn a diffyg eglurder o ran sut i ddefnyddio trên gyda ffrâm gerdded ag olwynion, bysiau annibynadwy, mae trenau yn aml yn llawn iawn, mae safleoedd bysiau yn aml yn annymunol i aros ynddynt oherwydd diffyg cysgod.'*
> *(person ifanc 22 oed, Gwynedd)*





## Casgliadau

Mae'n amlwg inni fod angen i drafnidiaeth gyhoeddus ymestyn ymhellach nag y mae ar hyn o bryd, mae angen i'r gwasanaethau hyn fod yn fwy rheolaidd, mae angen iddynt fod yn ddibynadwy ac yn gydgysylltiedig, ac mae angen i amseroedd teithio fod yn fyrrach.

Rydym yn teimlo bod canfyddiad negyddol cynyddol yn gysylltiedig â thrafnidiaeth gyhoeddus, na ellir dibynnu arni i gyrraedd lleoedd ar amser, a all gael effaith fawr ar bobl ifanc pan fydd angen iddynt gyrraedd mannau dysgu, mannau gwaith, neu ymrwymiadau pwysig eraill. Mae'r her i'r rhai mewn ardaloedd gwledig hyd yn oed yn fwy.

> *'Gwella ac estyn rhwydweithiau rheilffyrdd i gwmpasu mwy o ardaloedd yng Nghymru. Mae'n dda gwybod nad yw Llywodraeth Cymru yn adeiladu unrhyw ffyrdd newydd OND mae angen i'r costau a arbedir gael eu rhoi i wella trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru a sicrhau bod y cyhoedd yn gweld ac yn teimlo'r buddsoddiad hwn (drwy wneud gwasanaethau'n fwy dibynadwy).'*
> *(Rhiant/gofalwr/gwarcheidwad)*

Ni waeth pa mor dda yw bwriadau pobl wrth iddynt benderfynu sut i deithio yn seiliedig ar yr effaith ar yr amgylchedd. Os bydd pobl yn parhau i ystyried bod trafnidiaeth gyhoeddus yn anghyfleus, yna bydd canran fawr o bobl yn dewis opsiynau y maent yn ystyried eu bod yn fwy cyfleus ac yn fwy diogel fel defnyddio car. Er mwyn gweld y cynnydd rydym i gyd yn gobeithio ei weld yn nifer y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus, rydym yn cytuno'n llwyr bod angen mwy o fuddsoddiad. Fel y dywedodd y gwleidydd o Golombia Enrique Peñalosa un tro, *'nid dinas lle mae gan bobl dlawd geir yw dinas datblygedig, ond un lle mae'r bobl gyfoethog yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.'*

Rydym yn teimlo bod angen gwneud mwy i wella'r profiad i'r bobl ifanc niwroamrywiol hynny a'r rhai ag anableddau corfforol. Mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn gyfleus, ac mae gwasanaethau wedi'u cynllunio i ddarparu ar gyfer y bobl ifanc hyn.

**Rydym yn galw am y canlynol:**

- Mwy o fuddsoddiad yn ein gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus, gan ganolbwyntio ar:
    - Ehangu llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus
    - Cynyddu amlder gwasanaethau
    - Sicrhau bod gwasanaethau'n ddibynadwy
    - Lleihau amseroedd teithio
- Gwella cysylltedd rhwng gwahanol ddulliau teithio cynaliadwy.
- Cael gwared â rhwystrau sy'n wynebu gwahanol grwpiau gan gynnwys pobl ifanc niwroamrywiol a'r rhai ag anableddau corfforol.



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

# LLWYBRAU TEITHIO LLESOL



# LLWYBRAU TEITHIO LLESOL

*Ystyriwyd mai beicio yw'r opsiwn lleiaf diogel o ran teithio llesol. Dywedodd 41% eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n weddol ddiogel, o'i gymharu â 53% wrth ystyried cerdded neu olwyno. Roedd y bobl ifanc a glywsom ganddynt hefyd yn teimlo bod llwybrau beicio yn llai cyfleus, mewn cyflwr gwaeth, ac yn llai hygyrch na llwybrau cerdded. Mater a godwyd gyda ni yn aml oedd diffyg lonydd beicio, a phryderon am rannu ffyrdd prysur gyda cheir.*

> *'Hoffwn feicio mwy ond nid yw fy ardal i yn teimlo'n ddiogel iawn gan nad oes unrhyw lwybrau beicio lle rydw i'n byw.'*
> *(person ifanc 12 oed, Pen-y-bont ar Ogwr)*

> *'Prin yw'r mannau o fewn pellter cerdded/beicio; mae'r ffyrdd yn rhy brysur a does dim llwybrau beicio.'*
> *(person ifanc 16 oed, Sir Benfro)*

> *'Lonydd beicio llawer mwy diogel ar wahân.'*
> *(person ifanc 15 oed, Casnewydd)*

> *'Nid oes seilwaith ar hyn o bryd i gefnogi teithio llesol. Os ydw i eisiau cyrraedd fy Morrisons lleol o ble rydw i'n byw nawr, rhaid imi naill ai cerdded yn gyfochrog â phrif ffordd mewn ardal laswellt heb ei phalmantu, neu rhaid imi fynd drwy fferm.'*
> *(person ifanc 18 oed, Blaenau Gwent)*



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

> *'Mae fy mhlentyn yn cerdded i'r ysgol oherwydd ein bod yn teimlo nad yw'r llwybr beicio i'r ysgol yn ddigon diogel. Fel arall, byddai'n beicio (taith un ffordd o ddwy filltir).'*
> *(Rhiant/gofalwr/gwarcheidwad)*

Roedd llawer, yn enwedig y rhai sy'n beicio a/neu'n defnyddio cadair olwyn, o'r farn nad oedd safon llwybrau a phalmentydd yn ddigon da. Galwodd llawer am welliant o ran eu cyflwr ac o ran hygyrchedd.

> *'Diffyg palmant digonol yn aml, ceir wedi'u parcio ar balmentydd, yn serth iawn i'r rhai sydd â phroblemau symudedd.'*
> *(person ifanc 22 oed, Caerffili)*

> *'Gwell palmentydd gyda mwy o gyrbau wedi'u gollwng.'*
> *(Rhiant/gofalwr/gwarcheidwad)*

Roedd llawer y buom yn siarad â hwy eisiau cerdded, beicio neu olwyno yn amlach nag y maent ar hyn o bryd, ond roeddent yn teimlo nad oedd y seilwaith yn gwneud hwn yn opsiwn deniadol, diogel na chyfleus. Mewn ymateb i'n harolwg, dywedodd pobl ifanc wrthym eu bod am ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn fwy nag y maent nawr. Beicio oedd y dull o deithio gyda'r bwlch mwyaf rhwng pa mor aml yr oedd pobl yn ei ddefnyddio o'i gymharu â pha mor aml yr hoffai pobl ifanc ei ddefnyddio i fynd o le i le, 36% yn dweud eu bod yn defnyddio beic o leiaf bob wythnos neu bob pythefnos, o'i gymharu â 53% a ddywedodd yr hoffent feicio o leiaf bob wythnos neu bob pythefnos.

Yn ogystal â'r diffyg lonydd beicio ar wahân a llwybrau hygyrch, codwyd mannau diogel i barcio beiciau mewn mannau dysgu ac mewn cymunedau fel rhywbeth sy'n annog pobl ifanc i beidio â beicio'n amlach. Dywedodd dim ond 18% fod diogelwch parcio beiciau yn eu hardal yn dda neu'n dda iawn. Roedd diffyg goleuadau stryd hefyd yn gwneud i rai deimlo'n fwy agored i niwed wrth gerdded, olwyno neu feicio yn eu hardal leol, yn enwedig y tu allan i fisoedd yr haf.

> *'Mwy o fannau gweladwy i gloi beiciau.'*
> *(person ifanc 22 oed, Gwynedd)*

> *'LLAWER mwy o fannau mwy diogel i barcio beiciau.'*
> *(person ifanc 15 oed, Casnewydd)*




*'Nid yw llwybrau yn yr ardal wedi cael eu goleuo yn dda iawn, mae rhannau heb golau o gwbwl, felly yn gaeaf fyswn i'n cadw i ffwrdd.' (person ifanc 25 oed, Gwynedd)*

## Casgliadau

Mae angen i lwybrau teithio llesol deimlo'n fwy diogel, ac yn fwy cyfleus os oes mwy o bobl ifanc yn mynd i'w hystyried yn ffordd ymarferol o fynd o le i le. Fel gyda thrafnidiaeth gyhoeddus, er mwyn cyflawni hyn teimlwn fod angen mwy o fuddsoddiad.

Cawsom ein synnu o glywed gan gynifer o bobl a ddywedodd fod diffyg mannau parcio diogel ar gyfer beiciau yn eu hardal, ac er eu bod yn gyson â rhai o'n profiadau roedd yn destun pryder bod eraill yn ei chael yn anodd parcio eu beic yn eu man dysgu hefyd.

*'Mae'n gallu bod yn eithaf anodd dod o hyd i rywle i barcio'ch beic pan fyddwch chi'n cyrraedd yr ysgol neu'r coleg. Rwy'n gwybod, er enghraifft, fod rhai o fy ffrindiau yn arfer beicio i'r ysgol a bod rhaid iddynt ei roi yng nghwpwrdd gofalwr yr ysgol. Does dim stondinau beiciau chwaith.'*
*(Kasia Tomsa, Aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, Blaenau Gwent)*

### Rydym yn galw am y canlynol:

- Mwy o fuddsoddi mewn llwybrau teithio llesol, gyda ffocws ar wella diogelwch a hygyrchedd. Yn benodol, hoffem weld:
  - mwy o lwybrau cerdded, beicio ac olwyno
  - mwy o lonydd beicio ar wahân
  - gwelliannau yng nghyflwr llwybrau a phalmentydd
- Cynyddu nifer y cyfleusterau ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel mewn cymunedau, ac yn enwedig mewn mannau dysgu.

**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

# ARWYDDION, TOCYNNAU A GWYBODAETH AMSERLENNU



# ARWYDDION, TOCYNNAU, A GWYBODAETH AMSERLENNU

*Gwnaethom ofyn i bobl ifanc am eu barn ar ddarparu gwybodaeth sy'n gysylltiedig â theithio cynaliadwy. Dywedodd 36% o bobl ifanc wrthym fod arwyddion ar gyfer llwybrau cerdded yn dda neu'n dda iawn, ac roedd 26% yn teimlo'r un peth am lwybrau beicio. Dywedodd llawer wrthym eu bod yn ei chael yn anodd cael gafael ar y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt, o lwybrau teithio llesol, sut mae trenau a bysiau yn cysylltu ac amseru gwasanaethau.*

> *'Dyw hi ddim yn ymddangos ei bod yn gysylltiedig ac mae angen llawer o gynllunio i weithio allan sut i gyrraedd lleoedd. Mae'n haws neidio yn y car.'*
> *(person ifanc 13 oed, Caerdydd)*

> *'Mwy o wybodaeth ac amserlenni rhyngweithiol.'*
> *(person ifanc 15 oed, Sir y Fflint)*

> *'Ei gwneud yn fwy hygyrch ac i gyhoeddi amseroedd bysiau mewn ffordd well.' (person ifanc 15 oed, Ynys Môn)*

> *'Does dim apiau da i drefnu taith, mae mor anodd canfod sut mae pethau'n gysylltiedig.' (person ifanc 17 oed, Powys)*

> *'Llwybrau ag arwyddion cliriach. Mwy o hysbysebu.'*
> *(person ifanc 13 oed, Castell-nedd Port Talbot)*





Gyda llawer o bobl ifanc yn lleisio eu hanfodlonrwydd â dibynadwyedd trafnidiaeth gyhoeddus, yn enwedig gwasanaethau bysiau, roedd galw am ffyrdd gwell o roi diweddariadau amser real am yr amser y disgwylir i'w bws gyrraedd, yn hytrach na gorfod aros heb wybod a fydd yn hwyr, o faint, neu a yw wedi'i ganslo'n llwyr.

Galwodd rhai pobl ifanc am yr angen am ffordd fwy cyfleus o brynu tocynnau sy'n caniatáu i deithwyr ddefnyddio trenau a bysiau yn hytrach na gorfod prynu tocynnau ar wahân.

> *'Anaml y bydd amserlenni bysiau a threnau yn cysylltu, nid yw'r naill na'r llall yn ddigon dibynadwy i geisio symud rhwng y ddau, mae angen tocynnau gwahanol ar gyfer pob un.'*
> *(person ifanc 22 oed, Caerffili)*

> *'Gwneud y broses o brynu tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus/ mynd ar drafnidiaeth gyhoeddus yn llyfnach ac yn llai amwys; mae cyfleustra yn hollbwysig.'*
> *(person ifanc 17 oed, Pen-y-bont ar Ogwr)*

> *'Cerdyn smart SENGL ar gyfer pob dull teithio.'*
> *(person ifanc 15 oed, Rhondda Cynon Taf)*

## Casgliadau

Mae'n amlwg inni fod angen gwelliannau er mwyn i bobl ifanc allu cael gafael ar yr wybodaeth y mae ei hangen arnynt i gynllunio eu teithiau, a bod angen i'r wybodaeth honno fod yn hygyrch ac yn hawdd ei llywio hyd yn oed pan fyddant yn ystyried defnyddio sawl dull o deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol i gyrraedd pen eu taith. Yr her yw annog pobl i beidio â defnyddio ceir y mae gan lawer ohonynt fynediad iddynt ac y gallant benderfynu pryd yn union i'w defnyddio, y llwybr y maent yn ei gymryd, y gerddoriaeth y maent yn gwrando arni ac yn y blaen. Gan ddefnyddio geiriau'r hyn a ddywedodd un person ifanc wrthym, 'mae cyfleustra yn bwysig' i gynyddu nifer y bobl ifanc sy'n teithio mewn ffordd gynaliadwy, a gall bod yn well am ddarparu gwybodaeth glir, hygyrch helpu i gau'r bwlch hwnnw.

Rydym eisoes wedi sôn yn yr adroddiad hwn am yr angen i wneud trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy dibynadwy, ond pan fydd yr amseroedd cyrraedd yn newid, mae angen i bobl allu cael gafael ar yr wybodaeth honno'n hawdd ac yn gyflym.

Er nad ydym yn credu ei fod yn un o'r rhwystrau mwyaf, rydym yn credu bod pethau bach yn helpu i annog pobl i ddefnyddio ffyrdd mwy cynaliadwy o deithio, felly gyda hynny mewn golwg, credwn y dylid cymryd camau i integreiddio tocynnau yn well ar draws sawl dull o drafnidiaeth gyhoeddus i wneud y broses yn llyfnach ac yn haws i bobl ifanc.

**Rydym yn galw am y canlynol:**

- Gwelliannau o ran y wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol sydd ar gael a'r dull o'i chyfathrebu, gan ei gwneud yn fwy hygyrch, fel ei bod yn haws gweld sut y gellir defnyddio gwahanol ddulliau teithio i gyrraedd y cyrchfan.
- Gwella'r wybodaeth amser real a ddarperir i ddangos cynnydd ac amseroedd cyrraedd wedi'u diweddaru ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, pan fydd oedi.
- Darparu opsiwn tocynnau sy'n galluogi pobl ifanc i'w defnyddio ar draws sawl dull trafnidiaeth gyhoeddus.



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

# GWAHANIAETHU A CHAM-DRIN



# GWAHANIAETHU A CHAM-DRIN

*Roedd bod yn destun gwahaniaethu ac ymddygiad ymosodol ar drafnidiaeth gyhoeddus yn fater a godwyd gan bobl ifanc mewn grwpiau ffocws, digwyddiadau ac mewn sylwadau yn ein harolwg. Cyfeiriwyd yn benodol at bobl ifanc yn cael eu targedu oherwydd eu hethnigrwydd, eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth rhywedd. Dywedodd chwarter y bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig eu bod yn teimlo'n anniogel neu'n anniogel iawn ar fysiau, a dywedodd 34% eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn. Ar drenau, dywedodd 26% o bobl ifanc o leiafrifoedd ethnig eu bod yn teimlo'n anniogel neu'n anniogel iawn, a dywedodd 33% eu bod yn teimlo'n weddol ddiogel neu'n ddiogel iawn.*

> *'Dwi wedi wynebu ymddygiad ymosodol gan bobl a oedd yn gwneud sylwadau achos dwi'n edrych yn amgen ac yn hoyw/yn draws felly mae'n fy ngwneud i'n darged'.*
> *(person ifanc 17 oed, Sir Fynwy)*
>
> *'Dwi ddim eisiau mynd ar y bws gan fod llawer o hiliaeth ac mae arna i ofn.'*
> *(person ifanc 12 oed, Caerdydd)*

Dywedodd rhai pobl ifanc wrthym mai profiadau ac ofnau ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n eu hatal rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mewn rhai achosion, amlygwyd bod bysiau ysgol yn arbennig o broblemus oherwydd bwlio.



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** FFYRDD GWYRDD

> *'Mae'n hawdd iawn imi ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus Y TU ALLAN i'r ysgol, ond dwi'n cael trafferth ar drafnidiaeth ysgol oherwydd bwlio.' (person ifanc 13 oed, Pontypridd)*
>
> *'Mae'r orsaf fysiau yn rhy beryglus i'w defnyddio ar ôl iddi dywyllu oherwydd ymddygiad gwrthgymdeithasol.'*
> *(person ifanc 22 oed, Caerffili)*
>
> *'Amgylchedd mwy diogel yng Nghymru, gyda phryderon cynyddol troseddau cyllyll a throseddu yn gyffredinol. Dwi ddim yn teimlo mor ddiogel â hynny wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus am y rhesymau hynny.'*
> *(person ifanc 10 oed, Wrecsam)*

## Casgliadau

Mae'n eithriadol o drist clywed bod pobl ifanc yn dioddef gwahaniaethu, ac yng nghyd-destun ein gwaith ar deithio cynaliadwy, ei fod yn atal rhai pobl ifanc rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae angen i bobl ifanc allu teithio'n ddiogel ac yn rhydd, ac mae angen cymryd camau i fynd i'r afael â gwahaniaethu, bwlio a mathau eraill o ymddygiad gwrthgymdeithasol ar gyfer cymdeithas gynhwysol, ac i annog pobl i wneud mwy o ddefnydd o drafnidiaeth gyhoeddus.

**Rydym yn galw am y canlynol:**

- Ymgyrch gydgysylltiedig i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwahaniaethu yn erbyn grwpiau o bobl ifanc ar y cyrion, a mannau dysgu i ymgorffori hynny wrth ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru.

**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

# CRYNODEB AC ARGYMHELLION



# CRYNODEB AC ARGYMHELLION

*Cawsom ein calonogi a'n siomi gan yr hyn a ddywedodd pobl ifanc wrthym yn ystod ein hymgynghoriad. Gwelsom fod y bobl ifanc y buom yn ymgysylltu â hwy eisiau teithio mewn ffordd gynaliadwy yn fwy nag y maent nawr, bod eu lefelau ymwybyddiaeth, yn enwedig o ran yr effaith y mae gwahanol ddulliau teithio yn ei chael ar yr amgylchedd yn dda, a bod mannau dysgu yn effeithiol ar y cyfan o ran darparu gwybodaeth. Maent yn ymwybodol o'r effaith amgylcheddol y mae gwahanol ddulliau teithio yn ei chael ar yr amgylchedd, a dywedodd llawer iawn ohonynt (69% o'r ymatebwyr i'n harolwg) wrthym ei bod yn dylanwadu ar eu penderfyniad ar y ffordd y maent yn teithio.*

Ar y cyfan, mae'r bobl ifanc y buom yn ymgysylltu â hwy yn credu bod Llywodraeth Cymru yn ei chael yn iawn o ran eu lefelau uchelgais. Dywedodd dim ond 17% yn dweud bod y targed o gynyddu nifer y teithiau a wneir drwy deithio mewn ffordd gynaliadwy o 32% i 45% erbyn 2040 ychydig yn uchelgeisiol neu nad yw'n uchelgeisiol o gwbl. Roedd y ffocws yn ymwneud yn llai â'r targedau ac a oeddent yn ddigon uchelgeisiol ac yn fwy â gweithredu er mwyn cyflawni'r targedau hynny.

> *'Dwi'n credu y bydd yn cymryd llawer o gamau pendant ond mae'n hanfodol ar gyfer y dyfodol.'*
> *(person ifanc 16 oed, Pen-y-bont ar Ogwr)*



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

> *'Mae'n darged da i geisio ei gyflawni, gyda chyllid a gwaith priodol, gellir ei gyflawni yn bendant.'*
> *(person ifanc 15 oed, Sir Fynwy)*

> *'Mae angen ymrwymiad difrifol i gyflawni'r targed hwn er mwyn darparu trafnidiaeth gyhoeddus fforddiadwy a mwy rheolaidd a dibynadwy drwy fuddsoddi difrifol.'*
> *(person ifanc 23 oed, Castell-nedd Port Talbot)*

Ein rhwystredigaeth yw nad ydym yn gwireddu ein potensial gan nad yw'r seilwaith yn ddigon da. O ganlyniad i hyn mae nifer o rwystrau sy'n golygu i lawer nad yw trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn opsiwn ymarferol, er bod cyfran fawr o bobl ifanc yn dweud wrthym fod yr effaith ar yr amgylchedd yn ffactor wrth benderfynu ar eu dull teithio.

Roedd y rhwystrau sy'n atal pobl rhag defnyddio dulliau mwy cynaliadwy i deithio yn gyson ymhlith y bobl ifanc a'r oedolion y buom yn ymgysylltu â hwy. Mae angen i drafnidiaeth gyhoeddus fod yn fwy fforddiadwy, mae angen i'r llwybrau fod yn fwy aml a dibynadwy, wedi'u cysylltu'n well ac ehangu ymhellach i'w gwneud yn fwy hyfyw fel opsiwn, ac mae angen gwella'r wybodaeth a ddarperir. Mae angen mwy o lwybrau teithio llesol arnom, mae angen i lonydd beicio fod yn fwy diogel ac wedi'u gwahanu oddi wrth geir, ac mae angen i'r holl lwybrau fod yn fwy hygyrch.

> *'Dim ond os daeth yn opsiwn rhatach, cyflymach, mwy dibynadwy na char ac ar yr adegau neu yn y lleoliadau cywir.'*
> *(Rhiant/gwarcheidwad/gofalwr)*

> *'Bach yw'r cynnydd rydyn ni wedi'i weld yn ein cyflogau ers 2011 ond mae'r prisiau am drafnidiaeth gyhoeddus wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny a dwi ddim yn credu ei bod yn deg bod y cwmnïau hyn yn gwneud cannoedd o filiynau o bunnoedd mewn elw wrth inni wynebu argyfwng dirfodol ar ffurf y newid yn yr hinsawdd. Mae'n teimlo'n anghyfiawn.'*
> *(person ifanc 19 oed, Ynys Môn)*

Mae'n gadarnhaol bod cynlluniau fel FyNgherdynTeithio ar waith i'w gwneud yn fwy fforddiadwy i bobl ifanc ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, ond nid oedd y rhan fwyaf o bobl ifanc a rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr y buom yn siarad â hwy yn gwybod eu bod yn bodoli. Er ein bod yn credu y dylid gwneud mwy i sicrhau bod pobl yn fwy ymwybodol o gynlluniau fel y rhain, yn y pen draw, credwn y dylai trafnidiaeth gyhoeddus fod am ddim i'r rhai o dan 25 oed, a chefnogodd hynny gan y 74% o bobl ifanc a glywsom ganddynt a ddywedodd wrthym y byddent yn

defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy pe bai'n rhad ac am ddim. Teimlwn y byddai sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl ifanc yn ddatganiad arwyddocaol ac mai hwn yw'r sbardun mwyaf i gynyddu'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn wrth ystyried sut y mae'n mynd ati i gyflawni Sero Net Cymru.

## Argymhellion

- Mannau dysgu i roi mwy o bwyslais ar wella dealltwriaeth pobl ifanc o ymarferoldeb sut y gallant deithio'n gynaliadwy yn eu hardal leol.
- Mwy o ymdrechion i hyrwyddo teithio cynaliadwy, a chynlluniau fel FyNgherdynTeithio.
- Cyflwyno trafnidiaeth gyhoeddus am ddim i bobl o dan 25 oed.
- Cyflwyno cynlluniau i gefnogi pobl ifanc i gael mynediad at offer fel beiciau a hyrwyddo'r cynlluniau'n effeithiol.
- Mwy o fuddsoddiad yn ein gwasanaeth trafnidiaeth gyhoeddus, gan ganolbwyntio ar:
    - Ehangu llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus
    - Cynyddu amlder gwasanaethau
    - Sicrhau bod gwasanaethau'n ddibynadwy
    - Lleihau amseroedd teithio
- Gwella cysylltedd rhwng gwahanol ddulliau teithio cynaliadwy
- Cael gwared â rhwystrau sy'n wynebu gwahanol grwpiau gan gynnwys pobl ifanc niwroamrywiol a'r rhai ag anableddau corfforol.
- Mwy o fuddsoddi mewn llwybrau teithio llesol, gyda ffocws ar wella diogelwch a hygyrchedd. Yn benodol, hoffem weld:
    - mwy o lwybrau cerdded, beicio ac olwyno
    - mwy o lonydd beicio ar wahân
    - gwelliannau yng nghyflwr llwybrau a phalmentydd



**SENEDD IEUENCTID CYMRU:** *FFYRDD GWYRDD*

- cynyddu nifer y cyfleusterau ar gyfer parcio beiciau'n ddiogel mewn cymunedau, ac yn enwedig mewn mannau dysgu.
- Gwelliannau o ran y wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol sydd ar gael a'r dull o'i chyfathrebu, gan ei gwneud yn fwy hygyrch, fel ei bod yn haws gweld sut y gellir defnyddio gwahanol ddulliau teithio i gyrraedd y cyrchfan.
- Gwella'r wybodaeth amser real a ddarperir i ddangos cynnydd ac amseroedd cyrraedd wedi'u diweddaru ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus, pan fydd oedi.
- Darparu opsiwn tocynnau sy'n galluogi pobl ifanc i'w defnyddio ar draws sawl dull trafnidiaeth gyhoeddus.
- Ymgyrch gydgysylltiedig i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gwahaniaethu yn erbyn grwpiau o bobl ifanc ar y cyrion, a mannau dysgu i ymgorffori hynny wrth ddarparu'r Cwricwlwm i Gymru.



SENEDD
IEUENCTID
CYMRU

WELSH
YOUTH
PARLIAMENT